Cyngor 13/1/25

PRAESEPT 2025/26

Cyflwynwyd llythyr oddi wrth Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gwahodd y Cyngor i bennu swm eu praesept ar gyfer 2025/26.
Cyflwynwyd adroddiad gan y Clarc ar y sefyllfa i fyny i ddyddiad y Cyngor fel ganlyn:

Mae'n amser pennu'r praesept am 2025/26 a'r swm ofynwyd amdano am 2024/25 oedd **CHWE MIL PUM CANT (£6,500).**

Mae mantolenni'r banc yn dangos:

Cyfredol ar 3ydd Ionawr, 2025	£7,879.55
Y Fynwent ar 9fed Rhagfyr, 2024	£3,590.34
Y fantolen am fis Rhagfyr ddim i law.	
Cyfanswm yn y ddau gyfrif	**£11,469.89**

Bydd y taliadau a ganlyn yn ddyledus cyn 31ain Mawrth, 2025

J.A. Pozzi – barbio Comin Bryncroes	£1,260.00	o'r cyfrif cyfredol
J.A. Pozzi – barbio Mynwent Llandegwnning	£ 660.00	o gyfrif y fynwent
J.A. Pozzi – babrio Llwybr Bach	£ 96.00	o'r cyfrif cyfredol
Cyfraniad ariannol + cyfrniad heb fynd drwodd (Mynwent Botwnnog)	£ 250.00	cyfrif cyfredol
Cyflog y Clarc (mis Mawrth)	£ 420.00	cyfrif cyfredol
HMRC	£ 105.00	cyfrif cyfredol
Hurio Ystafelloedd:	£ 110.00	os yr un pris hurio
Cyfraniad Capel Rhydbach – goleuadau	£ 50.00	cyfrif cyfredol
Rhagwelir gwariant i fyny i 31/03/2025	**£2,951.00**	

Amcangyfrifir y bydd hyn yn gadael £8,518.89 ar 31ain Mawrth, 2025.
Teimlir fod y ffigwr yma braidd yn uchel i'w gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf a dylid ystyried a oes angen gwariant ar rhywbeth penodol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.

Rhagwelir gwariant am 2025/26 ar y ffigyrau am 2024/25

Cyfraniadau Ariannol	£850.00 +
Y Clarc	£1680.00
PAYE	£420.00
Yswiriant	£880.52 + chwyddiant
Blodau a.y.	£200.00
Un Llais Cymru ymaelodi	£186.00 + chwyddiant
Arfon Parry – gweletya	£20.00 + chwyddiant
Barbio tiroedd	£2,016 pris 2024/25.
(Nodyn – efallai fod angen barbio mwy o lwybrau yn y flwyddyn 2025/26)	
Gwariant am 2025/26 o'i gymharu â 2024/25	**£6,252.52**

Os bydd y Cyngor yn penderfynu gofyn am yr un swm yn y praesept sef £6,500 – bydd y swm a ragwelir fydd ei angen, os yn cadw at yr un taliadau, yn cael ei dalu allan o'r praesept. Bydd cryn arian heb ei wario (oddeutu £8,500) eto yn y coffrau ddiwedd y flwyddyn 2025/26.

Ystyriwyd gwhanol brosiectau y gellid ymgymryd a hwy er hyrwyddo diddordeb yn yr ardal, e.e. diogelu enwau lleol (ymholiadau i'w wneud gyda'r Grŵp sydd wedi bod yn

gwneud hyn yn ardal Llanengan); ystyried rhoddi hysbysfyrddau yn y pentrefi o hanes yr ardal; creu map o lwybrau cyhoeddus a.y. Trafodir y syniadau uchod ymhellach mewn cyfarfod o'r Cyngor.

Penderfynwyd, yn dilyn trafodaeth eang, lynu at yr un praesept â'r llynedd, sef **CHWE MIL PUM CANT PUNT (£6,500).**